BETH I WNEUD OS OES TORIAD I'R TRYDAN

WESTERN POWER DISTRIBUTION

Serving the South West and Wales

Beth i wneud os oes toriad i'r trydan

Toriad yn y trydan yw pan mae eich trydan yn stopio gweithio ac angen cael ei drwsio.

1. Pethau i'w gwneud nawr rhag ofn i chi gael toriad trydan

✓ Cadw tortsh neu lantern wrth lawr (maen well peidio defnyddio cannwyll).

✓ Cadw radio wrth law i wrando ar newyddion am y toriad.

✓ Gwneud yn siŵr bod y dortsh a'r radio yn gweithio **heb** drydan. Er enghraifft trwy ddefnyddio batri neu ynni'r haul.

✓ Gwneud yn siŵr bod eich ffôn yn gweithio heb drydan. Nid yw pob ffôn yn gweithio pan mae toriad, er enghraifft ffôn digidol neu ddiwifr (cordless). Cadwch ffôn arferol sy'n gweithio heb drydan wrth law i'w ddefnyddio yn ystod toriad.

✓ Mae'n bosib prynu pethau o'r enw '**surge protection plug'** a **chyflenwad sydd ddim yn bosibl i'w dorri**. Byddent yn cadw eich cyfrifiadur yn ddiogel yn ystod toriad trydan. Ewch i wefan: **www.westernpower.co.uk/default.asp?PageID=83** am fwy o wybodaeth.

Os oes gennych lifft grisiau/staer sy'n gweithio gyda trydan:

✓ gwnewch yn siŵr bod handlen i chi dynnu i'w wneud i fynd yn ôl at y llawr os oes angen.

✓ gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio gyda batri. Os ddim siaradwch â'r cwmni wnaeth y lifft. Mae'n bosib yn gallent eich helpu.

✓ Os ydych chi neu rhywun rydych yn ei adnabod yn dioddef o iechyd gwael gwnewch gynlluniau rhag ofn i'r trydan stopio gweithio. Er enghraifft gwnewch yn siŵr bod yr offer 'rydych yn ei ddefnyddio ar gyfer eich salwch yn gweithio gyda batri.

2. Beth i wneud os oes toriad i'r trydan

✓ Siaradwch efo pobl drws nesaf i weld os yw eu trydan nhw wedi diffodd hefyd. Os ddim efallai bod problem yn eich tŷ chi.

✓ Mae swîts yn y tŷ or enw '**trip swîts'** yn ymyl y bocs ffiws neu fesurydd trydan (meter) yn eich tŷ. Bydd y swîts hwn yn cael ei ddiffodd os oes problem gyda'r trydan.

Diffoddwch offer trydan fel y cyfrifiadur a'r teledu. Wedyn trowch y trip swîts yn ôl i fyny i weld os yw'r trydan yn gweithio eto.

✓ Os nad ydych yn gallu gweld rheswm pam mae eich trydan wedi stopio gweithio cofiwch ddweud wrthym.

✓ Diffoddwch unrhyw offer trydan all fynd yn boeth fel y popty/ffwrn.

✓ Cadwch y rhewgell ar gau – dylai'r bwyd gadw yn oer am 12 awr.

✓ Gwisgwch ddillad cynnes os yw hi'n oer.

✓ Os nad oes gennych nwy yn eich popty/ ffwrn gofynnwch i'r bobl drws nesaf am help. Mae'n bosib y cewch fwyd a diod cynnes ganddynt.

✓ Os ydych yn hen, sâl iawn neu ag anabledd corfforol gallwn ni helpu os yw'r trydan wedi ei cael ei dori ers 4 awr neu fwy ac os nad ydych yn gallu cael gafael ar fwyd neu ddiod cynnes.

Ffoniwch ni ar **0845 601 2989** a gallwn gael rhywun i ddod i'ch helpu.

✓ Os oes gennych broblemau iechyd pan fydd y trydan yn mynd i ffwrdd, ffoniwch yr NHS Direct ar **0845 4647**. Ewch i'r ysbyty os ydych yn sâl iawn.

3. Sut i ddweud wrthym os yw eich trydan yn diffodd

Efallai nad ydym ni yn gwybod bod toriad i'ch trydan, felly ffoniwch ni mor fuan ag y gallwch.

Os ydych yn byw yn **De Orllewin Lloegr** ffoniwch **0800 365900**

Os ydych yn byw yn **De Cymru** ffoniwch **0800 052 0400**

Gallwch siarad gyda ni ar y ddau rif yma ar *typetalk*.
Neu siaradwch â ni ar rif ffôn *textphone*: **0845 6012318**

Os ydych yn hen, sâl iawn neu yn anabl gofynnwch i ni am yr help ychwanegol y gallwn ei gynnig. Am fwy o wybodaeth ffoniwch:

0845 601 2989

neu e-bost i
wpdpriorityservices@westernpower.co.uk

MENCAP
Understanding learning disability

Geiriau hawdd gan Mencap. Lluniau gan Photosymbols

Western Power Distribution (South West) plc and
Western Power distribution (South Wales) plc
Registered in England and Wales No. 2366894 and 2366985
Registered Office: Avonbank, Feeder Rd, Bristol, BS2 0TB